

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL DIWYGIEDIG

Y BIL YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL, TROSEDDU A PHLISMONA

DARPARIAETHAU MEWN PERTHYNAS Â CHYFLWYNO HYSBYSIADAU AMDDIFFYN CYMUNEDOL, GORCHMYNION GWARCHOD MANNAU CYHOEDDUS, HYSBYSIADAU CAU A DIWYGIADAU I DDEDDF CŴN PERYGLUS 1991

Diwygiad o'r Memorandwm a osodwyd ar 23 Mai yw'r Memorandwm hwn. Mae'n wahanol i'r Memorandwm cynharach gan ei fod wedi'i ddiwygio i esbonio'r addasiadau i'r prawf perygl o dan Ddeddf Cŵn Peryglus 1991 ac i egluro y ceisir caniatâd y Cynulliad mewn perthynas â Chymal 99 o'r Bil. Mae'r darpariaethau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol. Rhoddir yr eglurhad hwn er mwyn darparu gwybodaeth bellach i gynorthwyo Aelodau Cynulliad gyda'u gwaith o graffu ar y Memorandwm. Yn unol â Rheol Sefydlog 29.3(v), mae'r memorandwm diwygiedig hwn yn nodi sut y mae'r memorandwm newydd yn wahanol i'r un blaenorol, a pham. Nodir yr eglurhad yn y paragraff 30A newydd isod.

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at bwrpas sy'n dod o fewn, neu sy'n addasu, cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.
2. Cyflwynwyd y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlisma (y "Bil") yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 9 Mai 2013. Gellir gweld y Bil yn: [Bill Documents – Anti-social Behaviour, Crime and Policing Bill 2013-14 – UK Parliament Website](#)

Crynodeb o'r Bil a'i Amcanion Polisi

3. Noddir y Bil gan y Swyddfa Gartref. Amcanion polisi Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil yw creu pwerau newydd a symlach i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol; annog perchnogion cŵn i ymddwyn yn gyfrifol; mynd i'r afael â'r defnydd o arfau tanio gan gangiau a grwpiau troseddau cyfundrefnol; gwneud priodasau dan orfod yn anghyfreithlon; a gwella safonau proffesiynol yr heddlu.
4. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer cywasgu'r 19 gorchymyn presennol o fewn 6 gorchymyn newydd i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol; yn darparu i ddioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol y gallu i sicrhau y gweithredir; yn caniatáu adfeddiannu gorfodol pan fo deiliad tenantiaeth ddiogel yn torri un o'r gorchymynion newydd; yn diwygio Deddf Cŵn Peryglus 1991 gan estyn ei darpariaethau i eiddo preifat; yn cynyddu'r gosb uchaf am fewnforio ac allforio arfau tanio; yn creu'r drosedd newydd o feddiannu arfau tanio ar gyfer eu gwerthu neu eu trosglwyddo; yn gwneud priodasau dan orfod yn anghyfreithlon; yn creu Coleg Plisma newydd a hefyd yn gwneud darpariaethau ynglŷn â rheolaethau ariannol ar brif gwnstabiailid, ac yn estyn pwerau a chylch gwaith Comisiwn Cwylion Annibynnol yr Heddlu

Darpariaethau yn y Bil y ceisir caniatâd ar eu cyfer

Rhan 4, Pennod 1 – Hysbysiadau Amddiffyn Cymunedol

5. Mae'r Bil yn cyflwyno pŵer i berson awdurdodedig, sef cwnstabl, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu, awdurdod lleol neu berson (e.e. landlord cymdeithasol cofrestredig) a ddynodir gan awdurdod lleol, i ddyroddi Hysbysiad Amddiffyn Cymunedol (HAC).
6. Ceir dyroddi HAC os bodlonir y person awdurdodedig fod unigolyn neu gorff yn ymddwyn mewn ffordd sy'n cael effaith niweidiol, yn gyson neu'n barhaus, ar ansawdd bywyd pobl yn yr ardal leol, a bod yr ymddygiad hwnnw'n afresymol. Mae hyn yn ymestyn i berchnogion neu feddianwyr mangreoedd, oherwydd, yn ddarostyngedig i amodau penodol, trinnir ymddygiad mewn mangre neu ymddygiad sy'n effeithio ar fangre, fel ymddygiad y perchennog neu'r meddiannydd.
7. Caiff HAC wneud yn ofynnol bod y person y dyroddir yr HAC iddo yn ymatal rhag gwneud pethau penodedig, yn gwneud pethau penodedig, neu'n cymryd camau rhesymol er mwyn cyrraedd canlyniadau penodedig. Caiff person y dyroddir HAC iddo apelio i lys ynadon yn erbyn yr HAC.
8. Mae peidio â chydymffurfio â HAC yn drosedd, a chaiff person awdurdodedig ddyroddi hysbysiad cosb benodedig mewn perthynas â'r drosedd honno. Yn ychwanegol, os nad yw'r person y dyroddir hysbysiad iddo yn cydymffurfio, caiff yr awdurdod lleol gymryd camau i unioni'r methiant; yn yr un modd, caiff llys wneud gorchymyn unioni, i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion yr hysbysiad.
9. Gellid defnyddio HACau i ddelio ag amryw o fathau o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Er enghraifft, gellid dyroddi HAC mewn achosion o faeddu gan gŵn, graffiti, taflu sbwriel neu osod posteri'n anghyfreithlon. Bydd yr HACau'n disodli'r drefn bresennol o hysbysiadau lleihau taflu sbwriel, hysbysiadau clirio sbwriel a hysbysiadau rheoli sbwriel ar strydoedd o dan adrannau 92 i 94A o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (DDA 1990), a hysbysiadau dileu difwyno o dan adrannau 48 i 52 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (DYG 2003); diddymir yr adrannau hyn gan baragraffau 21 a 41(e) o Atodlen 7 i'r Bil. Ceir dyroddi HAC hefyd i ymateb i agweddau penodol ar niwsans sŵn, na roddir sylw iddynt ar hyn o bryd o dan DDA1990, ond rhaid peidio â dyroddi HAC mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n gyfystyr â niwsans statudol o dan Ran 3 o DDA 1990.
10. Gellid defnyddio HAC i ddelio hefyd â phroblemau a achosir gan ymddygiad anghyfrifol perchnogion cŵn, megis cŵn sy'n cyfarth yn gyson a swnllyd neu gŵn sydd allan o reolaeth. Os yw ci allan o reolaeth, gellid cyflwyno HAC i'r person sy'n gyfrifol am y ci, i wneud yn ofynnol ei fod yn cadw'r ci dan reolaeth. Gallai'r HAC wneud yn ofynnol hefyd fod y person hwnnw'n cadw'r ci ar dennyn neu mewn safnffrwyng, neu fod perchennog y ci yn cael hyfforddiant cŵn addas.

Rhan 4, Pennod 2 – Gorchymynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus

11. Yn y Bil, rhoddir pŵer i awdurdod lleol i wneud Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus (GGMC) mewn perthynas â man cyhoeddus ("ardal gyfyngedig") os

bodlonir yr awdurdod, ar sail resymol, fod gweithgareddau mewn man cyhoeddus wedi cael effaith andwyol ar ansawdd bywyd pobl yn yr ardal, neu y cyflawnir gweithgareddau sy'n debygol o gael yr effaith honno. Rhaid bodloni'r awdurdod hefyd fod y gweithgareddau, oherwydd eu natur, yn digwydd neu'n debygol o ddigwydd yn gyson neu'n barhaus, a'u bod yn afresymol, ac yn cyfiawnhau'r cyfyngiadau a osodir gan yr hysbysiad. Enghreifftiau o weithgareddau o'r fath mewn perthynas â rheoli cŵn fyddai perchnogion sy'n caniatáu i'w cŵn faeddu yn rheolaidd mewn parc cyhoeddus, neu'n caniatáu i'w cŵn fynd i mewn i ran o'r parc a ddefnyddir fel man chwarae i blant.

12. Bydd yr GGMC yn disodli'r drefn bresennol mewn perthynas â Gorchmynion Rheoli Cŵn o dan Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 (DCGA 2005). Bwriedir i'r drefn newydd fod yn gymwys i ystod eang o ffyrdd o ymddwyn mewn mannau cyhoeddus, ac nid yn gyfyngedig i Orchmynion Rheoli Cŵn yn unig; ond bydd y drefn Gorchmynion Rheoli Cŵn presennol o dan DCGA 2005 yn gynwysedig yn y drefn newydd. Diddymir adrannau 55 i 64, 66 a 67 o DCGA 2005 gan baragraff 42 o Atodlen 7.
13. Caiff GGMC naill ai wahardd gwneud pethau penodol o fewn yr ardal gyfyngedig, neu bennu pethau sydd i'w gwneud gan bersonau sy'n cyflawni gweithgareddau penodedig o fewn yr ardal honno, neu'r ddau. Gall hynny gynnwys gofyniad i symud baw cŵn, cadw ci ar dennyn, neu wahardd tywys mwy na nifer penodedig o gŵn yn yr ardal gyfyngedig ar unrhyw adeg.
14. Caiff GGMC barhau am hyd at dair blynedd oni chaiff ei estyn, a bydd hawl gan berson sydd â buddiant (h.y. rhywun sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardal gyfyngedig) i herio dilysrwydd GGMC yn yr Uchel Lys.
15. Mae gwneud unrhyw beth a waherddir gan GGMC, neu beidio â chydymffurfio â gofyniad GGMC, yn drosedd, a chaiff cwnstabl neu swyddog cymorth cymunedol, neu berson a awdurdodwyd gan yr awdurdod lleol, ddyroddi hysbysiad cosb benodedig mewn perthynas â throedd o'r fath.
16. Roedd DCGA 2005 hefyd wedi mewnosod darpariaethau yn Rhan 8A o Ddeddf Priffyrdd 1980, i alluogi awdurdodau lleol i wneud gorchmynion llidiartu dros dro mewn perthynas â phriffyrdd penodol yn eu hardaloedd (er enghraifft, lonydd cefn ac aleau), er mwyn atal troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.
17. Mae cymalau 60 61 yn pennu sut y gweithredir GGMCau mewn perthynas â phriffyrdd cyhoeddus. Gosodir gofynion ac amodau ar gau priffyrdd sy'n debyg i'r gofynion ac amodau yn Rhan 8A o'r Ddeddf Priffyrdd. Maent yn cynnwys gofynion hysbysu a gofynion ynglŷn â'r defnydd o rwystrau neu lidiardau. Mae'n bwysig nodi na fydd y rhain yn diddymu statws priffordd sylfaenol unrhyw lwybr sy'n ddarostyngedig i'r GGMCau.
18. Mae cymal 61 yn rhoi i Weinidogion Cymru bwerau rheoleiddio mewn perthynas â'r mathau o briffyrdd na chaniateir eu cyfyngu gan GGMC. Mae Rhan 8A o Ddeddf Priffyrdd 1980 yn cynnwys pwerau tebyg iawn, nad ydynt wedi eu defnyddio yng Nghymru hyd yma.

19. Bydd paragraff 2 o Atodlen 8 i'r Bil yn diddymu adrannau 129A i 129G o Ran 8A o Ddeddf Priffyrdd 1980. GGMCau fydd yn cymryd lle'r gorchmynion lliidiartu dros dro fel y'u pennir yn Neddf Priffyrdd 1980.

Rhan 4, Pennod 3 – Cau Mangreoedd sy'n Gysylltiedig â Niwsans neu Anhrefn

20. Mae'r Bil yn cyflwyno pŵer sengl newydd, a fydd yn cymryd lle pedwar o'r pwerau presennol sydd ar gael i'r heddlu neu i awdurdod lleol ynglŷn â chau mangre. Bydd y pŵer sengl yn gymwys i fangreoedd trwyddedig yn ogystal ag eiddo preifat.

21. Bydd modd i swyddog heddlu, sef arolygydd neu swyddog o reng uwch, neu awdurdod lleol, ddyroddi Hysbysiad Cau mewn perthynas â mangre benodol os bodlonir y swyddog neu'r awdurdod fod defnyddio'r fangre honno wedi peri niwsans i aelodau'r cyhoedd, neu'n debygol o wneud hynny yn y dyfodol agos, neu fod anhrefn wedi digwydd, neu'n debygol o ddigwydd yn y dyfodol agos gerllaw'r fangre honno, a bod yr hysbysiad yn angenrheidiol er mwyn atal y niwsans neu'r anhrefn.

22. Mae'r darpariaethau a ddiddymir wedi eu pennu yn adrannau 161 i 166 o Ddeddf Trwyddedu 2003, a Rhannau 1 ac 1A a chymalau 40 a 41 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003. Pennir y diddymiadau hyn ym mharagraffau 34 a 41(a),(b) a (d) o Atodlen 7 i'r Bil.

23. Effaith hysbysiad cau yw cyfyngu ar fynediad i'r fangre am hyd at 48 awr. Pan ddyroddir hysbysiad, rhaid gwneud cais i lys ynadon am Orchymyn Cau a all barhau am gyfnod o hyd at dri mis, (neu chwe mis os estynnir y cyfnod yn ddiweddarach yn dilyn cais i'r llys) ac a fydd yn cyfyngu ar fynediad i'r fangre yn unol â'r telerau a bennir yn y gorchymyn. Gellir gwneud cais i Ynad Heddwch am ryddhau'r gorchymyn; neu gellir apelio i Lys y Goron yn erbyn penderfyniad i wneud, neu wrthod gwneud, gorchymyn.

24. Cyflawnir trosedd os yw person, heb esgus rhesymol, yn aros mewn mangre neu'n mynd i mewn iddi, yn groes i hysbysiad cau neu orchymyn cau, neu'n rhwystro person rhag cyflwyno hysbysiad neu gloi mangre sy'n ddarostyngedig i hysbysiad neu orchymyn.

25. Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod pob un o'r darpariaethau arfaethedig hyn, yn dod yn gyfan gwbl o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Fodd bynnag, tybir bod y cynigion yn cynnwys nifer o elfennau arwyddocaol sy'n dod o fewn cymhwysedd y Cynulliad, a bod yr elfennau hynny yn fwy na materion sy'n atodol, yn unig, i bwrpas y Rhan hon o'r Bil.

26. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod Penodau 1, 2 a 3 o Ran 4 yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol o dan Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mewn perthynas â phynciau a restrir o dan y penawdau 1 (Amaethyddiaeth, coedwigaeth, anifeiliaid, planhigion a datblygu cefn gwlad), 6 (Yr amgylchedd), 9 (Iechyd a gwasanaethau iechyd), 12 (Llywodraeth leol) a 15 (Lles cymdeithasol).

Rhan 7 – Diwygiadau i Ddeddf Cŵn Peryglus 1991

27. Ar hyn o bryd mae Deddf Cŵn Peryglus 1991, yn darparu y cyflawnir trosedd os yw ci allan o reolaeth ac yn beryglus mewn man cyhoeddus, ac y cyflawnir trosedd waethygedig os yw'r ci hwnnw yn anafu person.
28. Mae'r diwygiad hwn yn ehangu'r ddarpariaeth honno i gynnwys unrhyw le, ac o ganlyniad cyflawnir trosedd os bydd ci allan o reolaeth ac yn beryglus mewn eiddo preifat, yn ogystal â man cyhoeddus. Mae'r diwygiad hefyd yn estyn yr amddiffyniad o hunanamddiffyn i ddeiliad y tŷ, os digwydd i dresbaswr mewn annedd breifat gyfarfod â'r ci.
29. Yn ogystal, mae'n estyn pŵer swyddog o'r heddlu i ymafael mewn ci sydd allan o reolaeth ac yn beryglus mewn eiddo preifat.
30. Mae'n pennu hefyd y cyflawnir trosedd waethygedig os yw ci sydd allan o reolaeth ac yn beryglus yn niweidio ci cymorth.
- 30A. Mae Cymal 99 yn egluro'r ffactorau y dylai llys eu hystyried wrth benderfynu a yw ci yn beryglus at ddibenion arfer y pŵer i wneud gorchymyn difa o dan Ddeddf Cŵn Peryglus 1991. Roedd cyfraith achos ddiweddar wedi creu amheuaeth ac mae cymal 99 yn egluro sut y dylai'r llys weithredu'r prawf perygl.
31. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae Rhan 7 yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol o dan Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mewn perthynas â phynciau a restrir o bennawd 1 (Amaethyddiaeth, coedwigaeth, anifeiliaid, planhigion a datblygu cefn gwlad), 9 (Iechyd a gwasanaethau iechyd) a 15 (Lles cymdeithasol).
32. Mae'r Bil yn ymestyn i Gymru.
33. Mae'r Bil yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â'r GGMC o dan Bennod 2 o Ran 4 o'r Bil. Mae'r pŵer hwnnw'n galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi disgrifiad ychwanegol o briffyrdd na chaniateir dyroddi GGMC mewn perthynas â hwy. Byddai'r rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol. Byddent felly yn cael eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac yn agored i'w diddymu yn unol â phenderfyniad o'r Cynulliad.

Manteision defnyddio'r Bil hwn

34. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil Seneddol hwn ar gyfer y DU, gan mai'r Bil yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf addas a chymesur i alluogi cymhwyso'r darpariaethau hyn i Gymru; bydd y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma yn sicrhau y gellir mynd i'r afael mewn ffordd gyson â'r enghreifftiau o ymddygiad gwrthgymdeithasol amgylcheddol sy'n parhau yng Nghymru a Lloegr.
35. Yn ychwanegol, er bod Llywodraeth Cymru o'r farn bod y cynigion o sylwedd, y cyfeirir atynt yn y memorandwm hwn, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, rhaid derbyn hefyd y gellid dadlau nad yw rhai o'r darpariaethau, y bydd angen eu dwyn

ymlaen er mwyn rhoi effaith lawn i'r polisi sy'n sail i'r cynigion, yn dod o fewn y cymhwysedd; ac o ganlyniad, un o fanteision defnyddio'r Bil yw y gellir gwneud y darpariaethau i gyd o fewn un Ddeddf gydlynol.

Goblygiadau ariannol

36. Ni ragwelir unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru, o ganlyniad i weithredu darpariaethau perthnasol y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma yn ddiweddarach, na ellir eu diwallu fel rhan o'r ymrwymadau a wnaed eisoes.

Alun Davies AM
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd
Medi 2013